**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY**

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth:** | Creu lleoedd |
| **Gwasanaeth:** | Rheoli Datblygu |
| **Manylion Cyswllt:** | **dataprotection@monmouthshire.gov.uk** |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Hysbysiad Preifatrwydd Rheoli Datblygiadau ac Adeiladau |

# Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi derbyn manylion am eich data personol yn y categorïau canlynol:

- Manylion Cyswllt
- Y wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais

**Ffynhonnell eich data personol**

Mae sefydliad arall wedi rhannu'r wybodaeth ganlynol â Chyngor Sir Fynwy

- Y Porth Cynllunio
- Awdurdodau Rheoli Adeiladau sy'n Bartneriaid – gan gynnwys unrhyw Awdurdod Lleol o Gymru neu Loegr sy'n aelod o Gynllun Awdurdod Partneriaid LABC

## Pwrpas defnyddio eich gwybodaeth a'r sail gyfreithiol

**Ein rheswm/rhesymau cyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth:**

a. Rydym o dan rwymedigaeth gyfreithiol i brosesu eich gwybodaeth
b. Mae angen prosesu'r wybodaeth er mwyn gallu cyflawni tasg gyhoeddus
c. Mae angen prosesu'r wybodaeth o dan fuddiannau dilys er enghraifft fel rhan o broses ymchwiliad i gorfodi rheolau cynllunio.

Mae'r GDPR yn darparu diogelwch ychwanegol ar gyfer mathau penodol o wybodaeth, a elwir yn 'ddata personol mewn categorïau arbennig' e.e. hil, tarddiad ethnig, iechyd neu gyfeiriadedd rhywiol. Nodir mwy nag un amod uchod os bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych o fewn y categori hwn.
I gael gwybodaeth bellach am y sail gyfreithiol ewch i www.ico.org.uk

## Pwy fydd yn gweld eich gwybodaeth?

Cyngor Sir Fynwy fydd Rheolydd Data eich gwybodaeth.
E-bost: dataprotection@monmouthshire.gov.uk

Gall Rheolyddion Data eraill fod yn gyfrifol am eich gwybodaeth hefyd, yn dibynnu ar amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Gwasanaeth i gael rhagor o wybodaeth.

**Byddwn yn rhannu eich data yn fewnol â'r adrannau hyn:**

- Yr Adran Gyfreithiol
- Priffyrdd
- Iechyd yr Amgylchedd
- Tai
- Addysg
- Y Dreth Gyngor
- Cefn Gwlad
- Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant
- Ystadau
- Polisi Cynllunio
- Archwiliad Mewnol

- Aelod Lleol

**Byddwn yn rhannu eich data â'r asiantaethau/sefydliadau hyn yn allanol:**

- Eich cynrychiolwyr cyfreithiol
- Awdurdodau partner Rheoli Adeiladau
- PEDW
- SEWBREC
- Cynghorau Tref a Chymuned Sir Fynwy

Bydd unrhyw wybodaeth a rennir â'r uchod yn cael ei rhannu yn unol â Chod Ymarfer Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Mewn rhai amgylchiadau rydym o dan rwymedigaeth gyfreithiol i rannu eich gwybodaeth ag:**

Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith y Llywodraeth e.e. gyda'r Heddlu o dan y Ddeddf Atal neu Ganfod Troseddau

**Cais am wybodaeth**

Gall yr holl gofnodion gwybodaeth a gedwir gan Gyngor Sir Fynwy fod yn ddarostyngedig i geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data gan gynnwys unrhyw gyfraith arall ar Ddiogelu Data.

Os ydych yn aelod o'r cyhoedd a bod y wybodaeth a ddarperir gennych yn ddarostyngedig i gais o'r fath, bydd Cyngor Sir Fynwy yn ymgynghori â chi ynglŷn â'i datgelu, pan fo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu i'ch gwybodaeth gael ei datgelu byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn ôl os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.

## Pa mor hir fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Penderfynir ar ba mor hir y bydd Cyngor Sir Fynwy yn cadw gwybodaeth yn unol â gofynion statudol neu arferion gorau.
Cyfeiriwch at ein cynllun cadw gwybodaeth yma:
https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2020/11/Records-Management-Schedule-DM-and-BC.pdf

## Eich Hawliau

**Eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yw:**

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gael mynediad
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i gywiro, rhwystro, dileu neu ddinistrio eich gwybodaeth mewn amgylchiadau penodol.
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu gwybodaeth
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i iawndal os na fydd Cyngor Sir Fynwy yn cydymffurfio â gofynion penodol y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data o ran eich gwybodaeth.

I gael gwybodaeth bellach ewch i www.ico.org.uk

## Gweithdrefn Gwyno

Mae gennych hawl i gwyno os ydych yn gwrthwynebu'r ffordd y mae Cyngor Sir Fynwy yn trin eich data. Cysylltwch â'r Gwasanaeth sydd i'w weld ar frig y ddogfen hon i nodi eich cwyn. Dilynwch y ddolen hon i gael gwybodaeth bellach am y broses gwyno.
Os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon mae gennych hawl i gwyno hefyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth www.ico.org.uk